CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
CYFARFOD MISOL Y CYNGOR
A GYNHALIWYD AR 17 MAI 2017

Y Maer, y Cyngh Wyn Thomas, fu'n cadeirio cyfarfod misol Cyngor Tref Caerfyrddin a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Ddinesig San Pedr, nos Fercher, yr 17eg o Fai 2017, am 8.30 y.h.

YN BRESENNOL: Cynghorwyr: Julia Ault, Daniel Bartley, Dr Baba Gana, Phil Grice, Peter Hughes Griffiths, Gareth John, Alun Lenny, Arwel Lloyd, Kenneth Lloyd, Dr Ioan Matthews, Miriam Moules, Emlyn Schiavone, Jeff Thomas, Matthew Thomas, Wyn Thomas a Barry Williams.

17. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Parchedig Tom Defis ac Angharad Jones Leefe.

18. **DATGAN BUDDIANNAU**

Dywedodd y Cyngh Alun Lenny bod ganddo fuddiant yn eitem rhif 6(a) a (b) ar yr Agenda, fel Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Gaerfyrddin.

Dywedodd y Cyngh Ken Lloyd bod ganddo fuddiant yn eitem rhif 6 (a) a (b) ar yr Agenda, fel darpar aelod o Bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Gaerfyrdin.

Dywedodd y Cyngh Daniel Bartley bod ganddo fuddiant yn eitem 6 ar yr Agenda fel Rheolwr Gwylfa Gwasanaeth Tân Ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

19. **CWESTIYNAU**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

20. **CADARNHAU A LLOFNODI COFNODION Y CYFARFOD MISOL O'R CYNGOR A GYNHALIWYD AR 26 EBRILL 2017**

Cynigiwyd gan y Cyngh Alun Lenny, eiliwyd gan y Cyngh Peter Hughes Griffiths a **PHENDERFYNWYD** llofnodi cofnodion y Cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar y 26ain o Ebrill 2017 a'u derbyn yn gofnod cywir

21. **MATERION YN CODI**

Nid oedd unrhyw faterion wedi codi.

22. **MATERION CYNLLUNIO – CEISIADAU CYNLLUNIO CYFREDOL**

W/35472 - (Cynllunio Llawn) Canolfan MOT a Thrwsio Ceir Caerfyrddin, Heol Llansteffan, Tre Ioan, Caerfyrddin. Newid defnydd rhan gefn yr adeiladau o man ceir/trwsio/chwistrellu paent i 2 uned dosbarth defnydd B8 - **DIM GWRTHWYNEBIADAU**

W/35473 - (Cynllunio Llawn) 46 Stryd y Brenin, Caerfyrddin. Drws diogelwch newydd, wal newydd, gosod bin a golau soffit, diogelwch ymylon, goleuadau dianc, newidiadau mewnol ac addurno allanol - **DIM GWRTHWYNEBIADAU**

W/35474 - (Cynllunio Llawn - Rhestredig) 46 Stryd y Brenin, Caerfyrddin. Drws diogelwch newydd, wal newydd, gosod bin a golau soffit, diogelwch ymylon, goleuadau dianc, newidiadau mewnol ac addurno allanol. – **DIM GWRTHWYNEBIADAU**

W/35515 - (Cynllunio Llawn - Rhestredig) 3 Heol San Pedr, Caerfyrddin. Gwneud atgyweiriadau a chynnal cyffredinol i adeiladwaith yr adeilad – **CEFNOGIR Y CAIS**

W/35516 - (Cynllunio Llawn) Orthodontics Exclusively, Rhiw'r Castell, Caerfyrddin. Estyniad un llawr a strwythur to newydd i greu llety ail lawr - **DIM GWRTHWYNEBIADAU**

23. **YMGYNGHORIAD CYN YMGEISIO**

Rhoddodd Clerc y Dref trosolwg cryno o ddatblygiad preswyl arfaethedig o 29 o gartrefi amrywiol ar dir oddi ar Lluest-y-Bryn. Ar ôl trafodaeth hir deallwyd bod y datblygiad o fewn y Cynllun Datblygu Lleol, fodd bynnag roedd gwrthwynebiadau eisoes wedi eu derbyn gan y Cyngor Tref ac yn uniongyrchol gan Gynghorwyr. Cynigiwyd gan y Cyngh Alun Lenny, eiliwyd gan y Cyngh Gareth John a **CHYTUNWYD** gan bawb y dylai Cynghorwyr weld y cynlluniau sydd ar gael gan JCR a gwneud unrhyw wrthwynebiadau yn uniongyrchol iddynt.

24. **MATERION PRIFFYRDD**

Dim i'w drafod

25. **MATERION TRWYDDEDU**

Cais am Drwydded Adeilad, Siop Days, 2-5 Clos Mawr, Caerfyrddin. Cais ar gyfer cyflenwi alcohol, Llun - Sul 9:00-23:00 - **DIM GWRTHWYNEBIAD**

Vue Cinema, Heol y Gwyddau, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 1BD - Mân Amrywiad Cais Blaenorol - **DIM GWRTHWYNEBIAD**

26. **DATGANIAD CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU AR YR 31ain O FAWRTH 2016**

Cynigiwyd gan y Cyngh Daniel Bartley, eiliwyd gan y Cyngh Arwel Lloyd a **CHYTUNWYD** gan bawb fod y cyfrifon yn cael eu derbyn, ynghyd â'r Ffurflen Flynyddol.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Clive Evans am ei waith mewn perthynas â'r Cyfrifon Blynyddol.

27. **ADRODDIAD YR ARCHWILYDD MEWNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU AR YR 31ain o FAWRTH 2017**

Cynigwyd gan y Cyngh Dr Ioan Matthews, eiliwyd gan y Cyngh Ken Lloyd a Chytunwyd gan bawb i gymeradwyo a derbyn adroddiad yr Ymchwilydd Mewnol am y flwyddyn yn diweddu ar y 31ain o Fawrth 2017

28. **FFIOEDD ARCHWILIO BLYNYDDOL A MATERION ERAILL YN YMWNEUD Â'R ARCHWILIAD 2016/2017**

Nodwyd llythyr wrth y Swyddfa Archwilio.

29. **YMDDISWYDDIAD CRÏWR Y DREF**

Cynigiwyd gan y Cyngh Phil Grice, eiliwyd gan y Cyngh Ken Lloyd a **CHYTUNWYD** gan bawb y dylai'r Clerc y Dref dosbarthu datganiad i'r wasg yn gofyn am enwebiadau ar gyfer Crïwr y Dref, ac y dylai Cynghorwyr hysbysu Clerc y Dref o unrhyw ymgeiswyr posibl ar gyfer y rôl.

30. **GWYBODAETH GIG CYMRU**

Nodwyd y gohebiaeth.

31. **ADRODDIAD Y MAER**

Nodwyd yr adfroddiad.

32. **ADRODDIADAU GAN GYNGHORWYR FEL CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL**

Dywedodd y Cyngh Peter Hughes Griffiths y byddai'r ymweliad gefeillio nesaf ar yr 2ail o Fehefin a rhoddodd amlinelliad byr o'r hamserlen.

Dywedodd y Cyngh Phil Grice bod sefyllfa ariannol Dr Mz wedi gwella.

Dywedodd y Cyng Barry Williams bod Ysgol Rhydygors wedi penodi Pennaeth newydd, yn dilyn ailstrwythuro staffio.

33. **EITHRIO'R CYHOEDD A'R WASG**

Heb angen gweithredu.

34**.** **MATERION YN CODI**

Gyda chaniatâd y Cadeirydd, cododd y Clerc y Dref y materion canlynol:

(i) Caniatâd yn cael ei geisio gan Ffermwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin i werthu alcohol yn y Parc ar ddydd Sul 16 Gorffennaf. Ar ôl trafodaeth hir cynigiwyd gan y Cyng Emlyn Schiavone, eiliwyd gan y Cyngh Alun Lenny a **CHYTUNWYD** gan bawb na fyddai Cyngor yn cytuno i eu cais neu i unrhyw gais arall i werthu neu weini alcohol yn y Parc.

(ii) Dywedodd Clerc y Dref fod yr apêl gan Shared Access (y datblygwr) i godi mast Thelathrebu ym Mharc Caerfyrddin wedi cael ei gadarnhau gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru.

(iii) Dywedodd Clerc y Dref bod Pecynnau Gwybodaeth ar gyfer holl Gynghorwyr ar gael ar ôl y cyfarfod a Hyfforddiant Syfydlu gydag Un Llais Cymru yn cael ei gynnal ar 6ed Mehefin 2017 yn Neuadd Ddinesig San Pedr. Yn ogystal, dylai cynghorwyr fynychu Hyfforddiant Cod Ymddygiad yn Neuadd y Sir, Caerfyrddin am 6yh ar 29ain Mehefin 2017 neu 6ed Gorffennaf 2017 a dylid hysbysu'r Clerc o'r dyddiad a ffefrir.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:15.